



Ar gyfer teulu a
ffrindiau sy'n camu i'r
bwllch i fagu plentyn.



Wythnos Gofal Perthynas

6 - 12 Hydref 2025

Wythnos Gofal Perthynas 2025: Canllaw i ofalwyr perthynas

Beth yw Wythnos Gofal Perthynas?

Mae Wythnos Gofal Perthynas yn wythnos genedlaethol o ymwybyddiaeth, cydnabyddiaeth a dathlu teuluoedd perthynas ar hyd a lled Cymru a Lloegr.

Mae'n amser ar gyfer tynnu sylw at rôl hanfodol gofalwyr perthynas, y rhai sy'n magu plentyn aelod o'r teulu neu ffrind, sy'n darparu cartrefi cariadus a sefydlog i dros **141,000 o blant yng Nghymru a Lloegr**. Pobl fel chi.

Y neiniau a theidiau, modrybedd ac ewythrod, brodyr a chwiorydd, a ffrindiau teulu sy'n camu i'r bwllch mewn ffyrdd hynod i **gadw plant yn gysylltiedig â'u teuluoedd, eu gwreiddiau a'u cymunedau**.

Yn ogystal â bod yn ddathliad o bob teulu perthynas, mae Wythnos Gofal Perthynas yn gyfle i **godi ymwybyddiaeth o anghenion unigryw teuluoedd perthynas**.

KMae gofalwr perthynas yn gorfod goresgyn systemau cymhleth gyda chefnogaeth gyfyngedig, tra'n sicrhau bod eu plentyn yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu caru.

Bydd Wythnos Gofal Perthynas yn ein hatgoffa bod **cymuned gref o ofalwyr perthynas** sy'n rhannu eu profiadau mewn llawer o ffyrdd gwahanol er mwyn helpu gofalwyr perthynas i deimlo'n llai unig ac ynysig.

Yr wythnos hon, rydym yn tynnu sylw at y cysylltiadau pwysig hyn a grëwyd rhwng gofalwyr perthynas. Y sgysiau, y cyfeillgarwch, a'r ddealltwriaeth a rennir o **fod yn yr un cwch**.

Pecyn cymorth digidol Wythnos Gofal Perthynas - beth sydd ynddo



Canllaw ar gyfer
gwneud eich
Wythnos Gofal
Perthynas
2025 yn llwyddiant



Poster Wythnos Gofal
Perthynas, taflenni
cyfryngau
cymdeithasol/asedau
a datganiad i'r wasg i
hyrwyddo Wythnos
Gofal Perthynas



E-byst templed
Wythnos Gofal
Perthynas i wahodd
aelodau
seneddol/cynghor
wyr i gwrdd â chi

Dathlu teuluoedd perthynas, caredigrwydd a chymuned

Yr wythnos hon, Wythnos Gofal Perthynas, rydym yn dathlu ein **Cymuned Gofal Perthynas** - rhwydwaith cenedlaethol cryf, cefnogol o dros **15,000 o ofalwyr perthynas a'u cefnogwyr** sy'n helpu teuluoedd i wella, tyfu, a ffynnu, gan greu cysylltiadau a all bara gydol oes.

Mae cymunedau gofal teulu yn dod mewn pob maint a siâp, boed hynny'n gyfarfod am banded o de gyda gofalwr neu ffrind perthynas arall, neu'n bod yn rhan o grŵp ar-lein. Mewn cyfnodau anodd, gall cymuned fod y llaw ar ysgwydd sy'n rhoi'r sicrwydd emosiynol sydd ei angen arnoch i gadw i fynd.

Yn Kinship, rydym ni wedi'n creu gan ein cymuned ac ar gyfer ein cymuned. Mae popeth a wnawn ac a gyflawnwn oherwydd ein bod yn ei wneud gyda'n gilydd gyda gofalwyr perthynas. Beth bynnag rydych chi'n ei gynllunio - o de partïon gyda'ch grŵp lleol i dreulio'r Wythnos gyda theulu - **rydym yn eich dathlu chi!** Diolch i chi am gefnogi Wythnos Gofal Perthynas.

Cymerwch ran yn Wythnos Gofal Perthynas



Cynhaliwch de barti ar gyfer gofalwyr perthynas neu deuluoedd gofal perthynas yn eich ardal leol. Mae te partïon Wythnos Gofal Perthynas a gynhelir gan grwpiau cymorth Gofal Perthynas yn gyfleoedd i gysylltu a chael paned, cacen a sgwrs a dathlu pob teulu perthynas.



Cynyddwch ymwybyddiaeth drwy rannu gwybodaeth am ofal perthynas a chefnogaeth i ofalwyr perthynas lleol mewn llyfrgelloedd lleol, ar wefannau awdurdodau lleol, mewn siopau lleol ac ati, gyda chymorth ein pecyn cymorth **digidol**.



FDilynwch gyfryngau cymdeithasol Kinship a rhannwch wybodaeth rydym yn ei phostio am Wythnos Gofal Perthynas.



Cysylltwch â'ch aelod seneddol neu gynghorydd lleol. Gwahoddwch nhw i grŵp cymorth os oes un gennych neu gofynnwch am gael cyfarfod â nhw. Rhowch wybod i gyfryngau lleol am eich grŵp lleol a'ch gweithgareddau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â
comms@kinship.org.uk

Sicrhewch eich bod yn barod ar gyfer Wythnos Gofal Perthynas 2025 drwy ddilyn cyfryngau cymdeithasol Kinship.



@kinshipcharity



@Kinshipcarecharity



@kinship_charity



Kinship



kinship.org.uk